**Cross Party Group for North Wales**
**Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru**

# Cofnod o Gyfarfod 11 Mehefin 2018 gyda Growth Track 360 (GT360)

## Yn bresennol

Llyr Gruffydd AC (Yn y Gadair), Mark Isherwood AC, Ken Skates AC, Hannah Blythyn AC
Tim Peppin a Stephen Jones (WLGA)
Tasglu Rheilffordd Gogledd Cymru a Mersi Dyfrdwy (GT360): Cyng. Samantha Dixon (Cadeirydd, GT360), Cyng. Liam Robinson (Cadeirydd, Merseytravel a GT360)
Mynychodd y Cynghorydd Patrick Heesom (Sir y Fflint) fel gwestai i Mark Isherwood.

## Cyflwyniadau a Thrafodaeth

**Ken Skates AC, Ysgrifennydd Cabinet dros Yr Economi a Thrafnidiaeth**

Atodir testun sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yn canolbwyntio ar welliannau allweddol o'r etholfraint newydd.

Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys: -

- Dyfarnu etholfraint Cymru a'r Gororau a fydd yn arwain at well gwasanaethau trên yng Nghymru. Bydd yr etholfraint newydd yn dechrau ym mis Hydref 2018. Bydd gwelliannau'n dilyn dros y ddwy flynedd nesaf.
- Helpodd GT360 i ddiffinio a darparu'r gwelliant a gynigwyd ar gyfer gogledd Cymru.
- Mae angen gwneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yng ngogledd Cymru yn arbennig, a bydd trenau'n cyfrannu at y newid hwnnw.
- Mae angen rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU yn y dyfodol i drydaneiddio rheilffordd Caergybi i Crewe fel rhan o'r lobio ar gyfer cysylltu â HS2 yn Crewe a thrydaneiddio rheilffordd Caer i Warrington i gysylltu â Rheilffordd Pwerdy'r Gogledd yn Warrington (ragdybir trydaneiddio arfordir gogledd Cymru i Gaer a Crewe).

**Y Cynghorydd Dixon, Cadeirydd Growth Track 360 ac Arweinydd Cyngor Gorllewin Swydd Caer a Dinas Caer**

Rhoddodd y Cynghorydd Dixon gyflwyniad ac mae'r testun yn atodedig.

Mae GT360 wedi llwyddo i godi proffil gogledd Cymru a'r ardal drawsffiniol o ran buddsoddi mewn rheilffyrdd. Mae hyn wedi bod yn seiliedig ar: -

- Gweithio ar y cyd
- Cysylltu dyheadau â strategaethau cenedlaethol megis twf a datblygiad economaidd.
- Gosod trafnidiaeth i wasanaethu'r economi

**<u>Y Cynghorydd Liam Robinson, Cadeirydd Merseytravel.</u>**

Mae Maer Metro Rhanbarth Dinas Lerpwl, Steve Rotherham, yn awyddus iawn i weld gwell cysylltiad rhwng y system drafnidiaeth yn Rhanbarth Dinas Lerpwl a Swydd Caer a gogledd Cymru.

Mae llawer iawn o asedau diwydiannol, addysgol a gwasanaethau yn yr ardal ddaearyddol ar y cyd. Ni all bobl gyfalafu'n llawn ar fuddion yr asedau hyn heb gysylltiadau trafnidiaeth da.

Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth i gystadlu'n rhyngwladol yn dilyn Brexit gyda newid sylweddol mewn cystadleurwydd trwy Bwerdy'r DU a bydd Pwerdy'r Gogledd yn cyfrannu'n fawr at hynny.

Mae GT 360 wedi anelu at wneud Whitehall a Llywodraeth y DU yn fwy ymwybodol o anghenion trafnidiaeth (rheilffyrdd) a chyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â gwell trafnidiaeth (rheilffyrdd) yn ardal ddaearyddol ehangach gogledd Cymru a Mersi Dyfrdwy.

Y prif flaenoriaethau i GT 360 yw: -

- Dylanwadu ar Bartneriaeth Arfordir y Gorllewin a fydd yn gosod contract ar gyfer gwasanaethau prif reilffordd Arfordir y Gorllewin (gwasanaethau Virgin ar hyn o bryd). Bydd y contract newydd yn cynnwys gofyniad datblygu ar wasanaethau HS2 o 2027 ymlaen sydd wedi'u hintegreiddio yn y rhwydwaith traddodiadol.
- Creu canolbwynt yn Crewe gyda 5 – 7 o drenau HS2 yn pasio trwy Crewe bob awr ac ailfodelu Cyffordd y Gogledd yn Crewe i wneud lle i'r gwasanaethau hynny sy'n aros yno.
- Trydaneiddio gwasanaethau cydweddol clasurol sy'n rhedeg yn uniongyrchol o ogledd Cymru i Lundain ar reilffyrdd HS2 o Crewe.
- Buddsoddi yng ngorsaf Caer er mwyn gwneud lle i fwy o wasanaethau trwodd a derbyn mwy o wasanaethau o Crewe, Lerpwl a Warrington.

Mae TfN yn allweddol i ddarparu mwy o wasanaethau o'r dwyrain i'r gorllewin o ogledd Cymru a Chaer i Lerpwl a Manceinion ac ymlaen (Leeds) a hefyd o Gaer i Crewe, yn arbennig pan fydd angen uwchraddio'r seilwaith. Mae blaenoriaeth i Goridor Cymru a Gorllewin Lloegr TfN yn bwysig iawn i'r dyhead hwn, a dyna pam fod GT360 wedi cynhyrchu Prosbectws Cymru a Gorllewin Lloegr.

Bydd gogledd Cymru a Chaer yn cysylltu ac yn integreiddio gyda Rheilffordd Pwerdy'r Gogledd trwy ddatblygu cysylltiadau a dylanwadu gyda TfN.

## Trafodaeth

**<u>Canolbwynt HS2 yn Crewe</u>**

Gofynnodd Mark Isherwood am asesiad o ble'r ydym arni gyda Chanolbwynt Crewe: -

Mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Drafnidiaeth yn cefnogi'r cysyniad o gael Canolbwynt yn Crewe a symud o 2 drên bob awr o Lundain i Lerpwl i oddeutu 5 trên yr awr.

Mae Network Rail ac HS2 Ltd. yn ceisio ailgyflunio gosodiad rheilffyrdd a phlatfformau er mwyn cyflawni cysyniad o ganolbwynt i ymateb i'r Ysgrifennydd Gwladol. Maent yn ceisio gweithio o fewn cyllidebau presennol a datrys y materion a godwyd trwy gyfuno adnoddau. Mae hwn yn waith ar y gweill ac ni fydd yn mynd i'r afael ag ymddangosiad / gwaith moderneiddio'r orsaf na Chyffordd newydd i'r Gogledd. Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth o Gaerdydd i Fanceinion yn defnyddio twnelau cludo nwyddau ac yn cael platfformau i ffwrdd o'r prif gyntedd a phlatfformau.

Y risg yw amharu ar wasanaethau cyflym ac uniongyrchol o ogledd Cymru a Chaer. Byddai ein gwasanaethau presennol yn arafu a byddai hynny'n atal gwasanaethau.

Y nod yw cyflawni: -
- Gwasanaethau cyflym ac uniongyrchol i Lundain a/neu gwasanaethau aml i Crewe i gysylltu â gwasanaethau HS2 sy'n rhedeg yn aml a chyflym i Lundain
- Uwchraddio Cyffordd y Gogledd er mwyn cael gwasanaethau HS2 yn aros yn aml (5-7 trên yr awr) yn Crewe a'r gwasanaeth Caerdydd-Manceinion i groesi'r prif reilffordd heb ddefnyddio'r twnelau cludo nwyddau
- Cyflunio gorsafoedd yn briodol fel nad oes angen cerdded yn bell rhwng platfformau.

Dylid monitro cynnydd yn fanwl.

**<u>Camau Gweithredu</u>**
- Ysgrifennu llythyr drafft ynglŷn a Chanolbwynt Crewe i'w anfon gan y grŵp i'r Ysgrifennydd Gwladol
- Rhannu llythyr Ken Skates i'r Adran Drafnidiaeth er mwyn ffurfio sail i'r ohebiaeth
- Meddwl am ailedrych ar yr ymgyrch trydaneiddio y flwyddyn nesaf

**<u>Trafnidiaeth Integredig</u>**

Trafodwyd teithio ar fysiau a chysylltiadau â gorsafoedd.

Mae integreiddio yn ddyhead gan yr Etholfraint ac yn un o amcanion Trafnidiaeth Cymru. Bydd y sefydliad wedi'i freinio a Thrafnidiaeth Cymru yn gweithio ar docynnau integredig. Mae LlC yn ystyried sefydlogi gwasanaethau bysiau trwy ddarparu cefnogaeth ariannol.

Trafodwyd y posibilrwydd o ffurfio awdurdodau neu gynghreiriau trafnidiaeth i gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau mwy strategol sy'n gwasanaethu patrymau cyflogaeth a siopa yn well.

Mae achos clir a chryf i bartneriaid - awdurdodau lleol a LlC i gydweithio'n agosach i gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau bysiau.

**<u>Gallu Cerbydau Rheilffyrdd i Ryngweithredu a Defnyddio Technoleg Newydd</u>**

Cafwyd trafodaeth fer am ddefnyddio cerbydau sy'n gallu gweithredu ar draws ffiniau etholfraint, gan gynnwys trenau sy'n rhedeg ar fatris a threnau sy'n gallu ymrannu ac uno er mwyn gallu gwasanaethu mwy o gyrchfannau yn dda.